Page

# Cymerwch ran yn y Diwrnod Hunlun Bysedd Croes 2024

24/10/2024



Dau bobl yn gwneud ein hunlun bysedd croes #ThanksToYou y tu allan i'r synagog ym Merthyr Tudful

Ymunwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol ddydd Mawrth 19 Tachwedd i ddweud diolch yn fawr i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am wneud eich prosiect treftadaeth yn bosib.

**Ddydd Mawrth 19 Tachwedd** bydd miloedd o bobl yn postio hunluniau bysedd croes ar Twitter ac Instagram i gydnabod eu grant gan y Gronfa Treftadaeth a chodi hwyl ar y cyd yngl?n â'r achosion da anhygoel y mae'r Loteri Genedlaethol yn eu hariannu.

Rydym yn edrych ymlaen at daflu sbotolau ar rai o'r prosiectau treftadaeth ysblennydd a gefnogwn. Ymunwch â'r sgwrs dreftadaeth ar-lein i ledaenu'r gair am eich prosiect a helpwch i gael **#ThanksToYou / #DiolchIChi** i drendio.

19 Tachwedd yw ein pen-blwydd ni – a phen-blwydd y Loteri Genedlaethol – yn 30 oed a'r diwrnod cyntaf yr aeth tocynnau'r Loteri Genedlaethol ar werth yn ôl ym 1994. Ers hynny rydym wedi buddsoddi dros £8.6biliwn a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol mewn mwy na 47,000 o brosiectau treftadaeth ar draws y DU.

## Sut alla i gymryd rhan?

Rhannwch eich hunluniau bysedd croes ar gyfryngau cymdeithasol gyda neges o ddiolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a rhowch rywfaint o wybodaeth am eich prosiect treftadaeth. Gallech hefyd ddangos rhan o'r dreftadaeth, ein logo a'n brand yng nghefndir y llun, neu aelodau staff a gwirfoddolwyr eraill sy'n ymwneud â'r prosiect.

Tagiwch ni i mewn yn **@HeritageFundUK** a defnyddiwch yr hashnod **#ThanksToYou / #DiolchIChi**.

**Lawrlwytho'r pecyn cymorth.**




Gallwch dynnu'ch hunlun bysedd croes gyda chydweithiwr, gyda'r dreftadaeth neu gyda'n logo.

# Mynnwch ysbrydoliaeth

Chwilio am syniadau? Dyma rai postiadau drafft i'ch rhoi ar ben ffordd:

- Rydyn ni'n ymuno â @HeritageFundCYM i ddathlu'r Diwrnod Hunlun Bysedd Croes a dweud #DiolchIChi mawr wrth chwaraewyr y #LoteriGenedlaethol am helpu i ariannu prosiectau fel [nodwch enw/manylion y prosiect] #ThanksToYou
- Rydyn ni'n ymuno â @HeritageFundCYM i ddweud #DiolchIChi mawr wrth chwaraewyr y #LoteriGenedlaethol Mae eich cefnogaeth yn ein helpu ni i [nodwch fanylion y prosiect] #ThanksToYou
- Mae'n Ddiwrnod Hunlun Bysedd Croes! Rydyn ni'n dathlu'r gwahaniaeth y mae chwaraewyr y #LoteriGenedlaethol yn ei wneud. #DiolchIChi mae [nodwch enw'r sefydliad] wedi [nodwch fanylion y prosiect] @HeritageFundCYM

# Mwy o fomentau cyfryngau cymdeithasol

Mae gennym fwy o fomentau cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn y gallwch chi gymryd rhan ynddynt, y maent wedi'u dylunio i helpu hyrwyddo'ch prosiect, cydnabod eich grant a rhannu treftadaeth ysbrydoliaethus ar-lein.

Dyddiadau sydd ar y gweill ar gyfer eich dyddiadur:

**11 Ionawr 2025 –** rhannwch eich hoff leoedd, gwrthrychau a storïau treftadaeth gyda ni ar ddiwrnod #TrysorauTreftadaeth.

**Haf 2025 –** dathlwch ddigwyddiadau, agoriadau a gwibdeithiau haf treftadaeth anhygoel ar gyfer #TreftadaethArAgor.



# rdeb hefyd mewn ...



## vid y gêm' ar draws treftadaeth, tir a natur

Gorsaf Tilbury Riverside.



**treftadaeth cyn ein penblwydd 30**

## 30 prosiect dros 30 mlynedd